# Cyfarwyddiaeth Adnoddau
# Is-adran Archwilio Mewnol

## Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol
(Fel ar 28 Chwefror 2023)


Cyflwyniad 2

Cefndir 2
Annibyniaeth a Gwrthrychedd 2
Datblygiad Proffesiynol Parhaus 2
Asesiad Cymheiriaid Allanol 3

Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd 3

Gweithgareddau Presennol 3
Adnoddau 7
Cynllun Blynyddol 8
Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg (Ch4 (fel ar 28 Chwefror) 2022/23) 9
Canfyddiadau Gwerth am Arian (Ch4 (fel ar 28 Chwefror) 2022/23) 11

Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol 11

Gwerth Ychwanegol 11
Perfformiad 12
Gweithredu Cynllun Archwilio 13
Argymhellion 13

Casgliad 14

Atodiad A Statws Adroddiad fel ar 28 Chwefror 2023
Atodiad B Crynodeb o’r Argymhellion



Paratowyd gan: Chris Pyke, Rheolwr Archwilio

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Cefndir

Mae’r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol yn nodi perfformiad o ran y Cynllun Archwilio Mewnol. Mae’n crynhoi’r gwaith a wnaed, yr argymhellion blaenoriaeth a godwyd, y canfyddiadau critigol, tueddiadau sy’n dod i’r amlwg, a chanfyddiadau gwerth am arian perthnasol.

Mae’r adroddiad cynnydd yn cwmpasu’r cyfnod o 1 Ionawr i 28 Chwefror 2023,ac yn dilyn y diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023. Mae’r adroddiad hwn wedi’i strwythuro i roi crynodeb o weithgareddau archwilio, canlyniadau a chynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio 2022/23.

Cafodd Cynllun Archwilio 2022/23 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Mawrth 2022. Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn darparu’r fframwaith ar gyfer gwaith archwilio bob blwyddyn ac mae'n cyd-fynd â threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, gan ymateb hefyd i unrhyw newidiadau i'r risgiau a wynebir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

### 1.2 Annibyniaeth a gwrthrychedd

Mae’r Adran Archwilio Mewnol yn adrodd i’r Rheolwr Archwilio. Yn unol â darpariaethau Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (1100), cynhelir annibyniaeth sefydliadol gan nad yw'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifol am reoli unrhyw swyddogaethau y tu hwnt i'r timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn adrodd yn weinyddol i'r Pennaeth Cyllid ac yn swyddogaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am faterion sy'n ymwneud ag archwilio. Ni fu unrhyw achosion o amharu ar annibyniaeth na gwrthrychedd.

### 1.3 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Cwblhaodd yr archwilwyr eu hadolygiadau personol ddiwedd y flwyddyn a ffurfioli eu hamcanion ar gyfer 2022/23. Cyn trafod perfformiad, cwblhaodd yr archwilwyr eu hasesiad sgiliau o ran Fframwaith Cymwyseddau Proffesiynol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (SAM).

Llywiodd canlyniadau adolygiadau personol ac asesiadau sgiliau adolygiad y Rheolwr Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (Safon 1300), y cydnabuwyd gwaelodlin gyffredinol gref o wybodaeth a sgiliau ohoni ar draws y tîm archwilio.

1.4 Asesiad Cymheiriaid Allanol

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) yn gofyn bod asesiad allanol yn cael ei gynnal o leiaf unwaith pob pum mlynedd gan aseswr annibynnol cymwys neu dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad. Cwblhawyd yr asesiad cymheiriaid allanol blaenorol gan y Pennaeth Archwilio o Rondda Cynon Taf a chafodd ei adrodd i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2018.

Yn ychwanegol i'r manylion a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf a Tachwedd 2022 a Ionawr 2023, mae'r asesiad wedi'i gwblhau, dan arweiniad y Prif Archwilydd yn Sir Fynwy / Cyngor Casnewydd ( Andrew Wathan) a glustnodwyd i wneud yr asesiad cymheiriaid o wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Caerdydd.

Nid yw'r asesiad wedi nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfiad rhannol neu gyfan gwbl. Cynigiwyd un cam gweithredu dewisol ac fe'i gweithredwyd, yn ymwneud â chyfathrebu cwmpas ac amcanion yr archwiliad ynghyd â'r risg, o fewn allbynnau archwilio. Darperir rhagor o wybodaeth a'r asesiad llawn o fewn eitem 8.3 ar yr agenda, i'w chyflwyno i'r Pwyllgor gan yr aseswyr.

## 2. Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd

Mae'r crynodeb archwilio canlynol yn ymdrin â'r rhaglen waith ar gyfer 2022/23, a'r gweithgareddau, yr adnoddau, y canfyddiadau a'r mesurau perfformiad cysylltiedig fel ar 28 Chwefror 2023.

2.1 Gweithgareddau Cyfredol

Yn ystod chwarter pedwar 2022/23, fel ar 28 Chwefror 2023, blaenoriaethau ac ymagwedd y tîm archwilio oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a bwrw ymlaen â chyflawni ymgysylltiadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi parhau i fod ar gael a rhoi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol wrth weinyddu cynlluniau grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Ganolog yn ogystal â'r Cynllun Cartrefi i Wcráin, i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei wneud yn bennaf ar sail bwrdd gwaith, er bod ymweliadau safle yn digwydd ar gyfer archwilio sefydliadau, a lle mae angen arsylwi gweithrediad rheolaethau corfforol neu arferion gweithredu.

Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o archwiliadau a'r statws adrodd yn ystod y flwyddyn bresennol tan 28 Chwefror 2023, lle y cwblhawyd 35 o ymgysylltiadau archwilio newydd hyd at y cam allbwn o leiaf a 22 ymgysylltiad archwilio o'r flwyddyn flaenorol. Dangosir crynodeb o'r allbynnau a'r farn archwilio yn y flwyddyn dan sylw isod.

Ffigur 1 - Allbynnau a barn archwilio (ar 28 Chwefror 2023)

| Statws | Nifer yr archwiliad au a gwblhawyd | Barn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Effeithiol | Effeithiol gyda lle i wella | Annigonol ac angen gwelliant mawr | Anfoddhaol | Ni roddwyd barn |
| Draft | 12 | 2 | 7 | 2 | 1 | 0 |
| Terfynol | 45 | 7 | 25 | 6 | 0 | 7 |
| CYFANSWM | 57 | 9 | 32 | 8 | 0 | 7 |
| | 35 | Ymgysylltiadau Archwilio Newydd a gwblhawyd | | | | |
| | 22 | Ymgysylltiadau Archwilio a Orffennwyd o 2021/22 | | | | |

Ffigur 2 - Allbynnau a barn archwilio 2022/23 (ar 28 Chwefror 2023)

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| 1. | Grantiau Covid Llywodraeth Cymru - Sicrwydd (2021/22)* | Effeithiol |
| 2. | Gwasanaeth Ewch â Fi Adre | |
| 3. | Cynlluniau CGI (gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf) | |
| 4. | Rheoli Asedau Ysgol - Thematig (Albany) | |
| 5. | Budd-dal Tai / Lwfans Tai Lleol / Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor | |
| 6. | Incwm a Dyledwyr | Effeithiol gyda lle i wella |
| 7. | Iechyd a diogelwch | |
| 8. | Llywodraethu Contractau Hamdden | |
| 9. | Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yng Nghaerdydd | |
| 10. | Cantonian | |
| 11. | Ysgolion â Balansau Dros Ben - Thematig | |
| 12. | Taliadau Staff Asiantaeth | |
| 13. | Trefniadau Rheoli Risg | |
| 14. | Caffael | |
| 15. | Storfeydd Brindley Road | |
| 16. | Diogelu | |
| 17. | Maes Carafanau Caerdydd | |

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| 18. | Ysgol Farchogaeth Caerdydd | |
| 19. | Contract Trin Gwastraff Organig Caerdydd | |
| 20. | Ysgol Gynradd Glyncoed | |
| 21. | Arlwyo mewn ysgolion sydd wedi Optio Allan | |
| 22. | Cartref Cŵn Caerdydd | |
| 23. | Archwilio TGCh - Llywodraethu Seiber-Ddiogelwch | |
| 24. | Dilyniant - Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd | |
| 25. | Bargen Ddinesig 2021/22 | |
| 26. | Amrywiadau Contract | Annigonol ac angen gwelliant mawr |
| 27. | Cydymffurfiaeth SDD DCT y Gyfarwyddiaeth | |
| 28. | Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog | Anfoddhaol |
| | Gwaith Archwilio gyda 'Dim Barn' | |
| 29. | HRhR - Prynu a Thaliadau | |
| 30 | CRSA - Cyflogres ac Adnoddau Dynol | |
| 31. | Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Ymgynghoriaeth |
| 32. | Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | ardystio, cyngor, |
| 33. | Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | canllawiau |
| 34. | Ymgynghoriaeth Gwasanaeth / Prosesau | |
| 35. | Grant Gwella Addysg 2021/22 | |
| | Archwiliadau wedi'u Cwblhau o'r Flwyddyn Flaenorol | |
| 36. | Prynu a Thaliadau - profion yn ystod y flwyddyn | Effeithiol |
| 37. | Comisiynu a Chaffael - Pobl a Chymunedau | |
| 38. | Prif Gyfrifyddu | |
| 39 | Adnoddau – Incwm a Dyledwyr | |
| 40. | Archwiliad Crud i'r Bedd | Effeithiol gyda |
| 41. | Teleofal | lle i |
| 42. | Llywodraethu Gwybodaeth | wella |
| 43. | Parhad Busnes a Rheoli Digwyddiadau | |
| 44. | Rheoli perfformiad | |
| 45. | Cardiau prynu | |
| 46. | Cynlluniau Adfer Cyfarwyddiaethau | |
| 47. | Adnoddau – Sicrwydd Cyn Contract | |
| 48. | Incwm a dyledwyr - Gwasanaethau Cymdeithasol | |

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| 49. | Iechyd a Diogelwch Ysgolion - Thematig | |
| 50. | Gwerth am arian mewn Mentrau Digidol | |
| 51. | Sicrwydd Cyn Contract - Oedolion, Tai a Chymunedau | |
| 52. | Lleoliadau Plant | Annigonol ac angen gwelliant mawr |
| 53. | Cytundebau Adran 106 | |
| 54. | Milltiredd a Chynhaliaeth | |
| 55. | Cyfrifiadura Cwmwl | |
| 56. | Sicrwydd Cyn Contract - Gwasanaethau Plant | |
| 57. | CTA - Sicrwydd Cyn Contract | |

*Gwnaed trefniadau i'r archwiliad o 'Grantiau Covid Llywodraeth Cymru – Sicrwydd' gael ei oruchwylio gan Reolwr Gweithredol arall yn yr adran Gyfrifeg, ac i dynnu unrhyw ymwneud yn yr adroddiad archwilio oddi ar y Rheolwr Archwilio, sydd wedi cynghori ar ddylunio a gweithredu'r rheolaethau wrth weinyddu'r grantiau hyn.

Yn ogystal â'r tabl uchod, mae'r allbynnau na roddwyd barn sicrwydd arnynt a'r rhesymau dros hynny fel a ganlyn:

Ffigur 3 - Archwiliadau cyflawn heb farn sicrwydd (ar 28 Chwefror 2023)

| Archwilio | Sylwadau |
|---|---|
| Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Gwaith i gefnogi cwblhau'r Datganiad Cyfrifon, 2021/2022 |
| Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | |
| Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | |
| Ymgynghoriaeth Gwasanaeth a Phrosesau – Cynllun Cartrefi i Wcráin a chynlluniau grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Ganolog | Cydymffurfio, rheolaeth ac arweiniad gwrth-dwyll |
| Grant Gwella Addysg 2021/2022 | Ardystio grant |
| HRhR - Prynu a Thaliadau | Cwblhau Hunanasesu Rheoli Risg (HRhR) Ymarferion gyda chleientiaid |
| CRSA - Cyflogres ac Adnoddau Dynol | |

Mae'r sefyllfa yn erbyn y Cynllun Archwilio llawn wedi'i chynnwys yn eitem agenda 8.2 (atodiad 6), ac felly nid yw wedi'i chynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn er mwyn osgoi dyblygu. Fodd bynnag, dangosir statws yr adroddiad yn **Atodiad A**.

2.2 Adnoddau

Mae'r swydd Prif Archwilydd newydd yr hysbyswyd y Pwyllgor amdani ym mis Tachwedd 2022 wedi'i llenwi'n llwyddiannus ar sail 0.6 cyfwerth ag amser llawn. Mae'r swydd hon yn golygu bod yna aelod ychwanegol yn y Tîm Rheoli Archwilio ac yn gwella craidd cadarn o uwch swyddogion o fewn y tîm. Bydd deiliad y swydd yn dechrau ym mis Mawrth.

Llenwyd y swydd Prif Archwilydd newydd yn fewnol, a oedd yn gadael swydd wag ar lefel Uwch Archwilydd. Mae swydd wag arall ar lefel Uwch Archwilydd, gan y bydd y deiliad swydd arall yn gadael y tîm ar ôl diwedd y flwyddyn am gyfle gyda'r Tîm Cynllunio a Pherfformio. Mae trefniadau'n cael eu gwneud i hysbysebu'r ddwy swydd Uwch Archwilydd cyn gynted â phosibl.

Mae tair swydd hyfforddai Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) wedi'u hysbysebu ac, yn amodol ar benodiadau llwyddiannus, bydd un hyfforddai CIPFA yn gweithio ar sail cylchdro o fewn archwilio mewnol o chwarter 3 2023/24 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Archwilio.

Mae'r pwyllgor wedi cael gwybod am effaith swyddi gwag ar gynnydd y Cynllun Archwilio yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn ac, er mwyn cefnogi darpariaeth archwilio mewn meysydd TG a llywodraethu corfforaethol eleni, dyfarnwyd contract ar gyfer pedwar ymgysylltiad archwilio dan gyfarwyddyd y Rheolwr Archwilio. Ar adeg adrodd, mae'r ddau archwiliad TG wedi'u cwblhau i gam adrodd drafft o leiaf, ac mae'r ddau archwiliad sy'n weddill ar y cam gwaith maes gweithredol. Bu rhai achosion o salwch hefyd sydd wedi cael effaith ar yr adnoddau staff oedd ar gael yn ystod chwarter pedwar hyd yma.

Gan fod pob archwilydd gweithredol a'r cynorthwy-ydd archwilio yn cofnodi'r holl amser gwirioneddol a weithiwyd, mae gwybodaeth rheoli ddefnyddiol ar gael at ddibenion cynllunio, monitro ac adrodd. Roedd y data taflen amser yn cynnwys 1,105 diwrnod taladwy ar draws y tîm fel ar 28 Chwefror 2023, yn erbyn cynllun pro-rata o 1,318 diwrnod. Mae nifer is y diwrnodau taladwy wedi'i briodoli'n bennaf i'r swydd uwch archwilydd wag, ond hefyd wedi'i effeithio gan fwy o ddefnydd ar gyfer amser gweinyddol a rheoli, ac ymgysylltu â staff mewn mentrau datblygu a lles corfforaethol. Cafwyd rhai achosion o salwch byrdymor, er bod effaith hyn ar adnoddau staff wedi bod yn gymharol fach.

Mae amser ar gael at ddibenion datblygu archwilio, ac mae gan un Archwilydd gyllid wedi'i neilltuo er mwyn astudio'r Cymhwyster Archwilydd Systemau Gwybodaeth Ardystiedig (CISA) gydag ISACA.

## 2.3 Cynllun blynyddol

Mae Cynllun Archwilio 2022/23 yn cael ei bennu'n flynyddol. Mae'n addasadwy ac yn ymatebol a bydd yn destun asesiadau risg parhaus, blaenoriaethu ac adolygiadau drwy gydol y flwyddyn er mwyn gwneud y mwyaf o sicrwydd a chymorth rheolwyr. Mae'n bosibl y caiff newidiadau yn ystod y flwyddyn eu cyflwyno lle y bo'n briodol, er mwyn ymateb i risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Er gwybodaeth i'r pwyllgor, amlygir yr holl archwiliadau a oedd â statws drafft ar ddiwedd 2022/23 yn 'llwyd' er mwyn gallu olrhain cwblhau yr archwiliadau hyn, tra'n darparu gwahaniad gweladwy o'r ymgysylltiadau archwilio a geir yng Nghynllun Archwilio 2022/23.

Mae'r gwaith o gyflawni Cynllun Archwilio 2022/2023 wedi bod yn sylweddol is na'r targed yn ystod y flwyddyn hyd yma, fel ar 28 Chwefror 2023. Mae hyn wedi'i briodoli'n rhannol i lefel is o adnoddau staff fel yr amlinellir yn adran 2.2. 'Adnoddau', ac i ryw raddau oedi ynysig wrth dderbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn dod â'r gwaith maes archwilio i ben. Mae'r sefyllfa yn chwarter tri o ran cyflawni'r Cynllun Archwilio, fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yn Ionawr, i'w gweld yn adran 3.2 'perfformiad'.

Ym mis Ionawr 2023, derbyniodd y Pwyllgor fanylion yr archwiliadau a oedd yn cael eu blaenoriaethu i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd yr archwiliadau wedi'u targedu at ddarparu lledaeniad digonol o sicrwydd, sy'n lliniaru unrhyw amhariad ar farn flynyddol y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer 2022/2023. Byddai cyflawni'r hyn a nodwyd fel archwiliadau blaenoriaeth 1 yn sicrhau bod pob maes sylfaenol o'r cynllun yn cael eu cyflawni, bod meysydd craidd o lywodraethu corfforaethol wedi'u hadolygu, a bod digon o sylw ar lefel cyfarwyddiaeth. Byddai cyflawni'r archwiliadau hyn yn cyflawni 52% o'r Cynllun Archwilio yn erbyn targed o 70%.

Nodir y sefyllfa mewn perthynas â'r archwiliadau hyn yn y tabl isod, fel ar 28 Chwefror 2023, lle mae 20 archwiliad yn parhau ac maent i gyd ar gamau gwaith maes archwilio neu tu hwnt. Bwriedir cwblhau'r rhan fwyaf o'r archwiliadau hyn i'r cam adrodd drafft erbyn diwedd mis Mawrth 2023, gyda gweddill yr archwiliadau i'w cwblhau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol 2023/24.

Ffigur 4 - Archwiliadau â blaenoriaeth ar gyfer chwarter pedwar

| **Archwilio** | **Statws** (fel ar 28.02.2023) |
|---|---|
| Gorfodi Rheoli Gwastraff | Ysgrifennu / Adolygu Adroddiadau |
| Gwaredu Tir ac Adeiladau | Gwaith Maes Archwilio |
| Treth Gyngor | |
| Pensiynau a Buddsoddiadau | |
| Moeseg a Gwerthoedd | |
| Partneriaeth / Sicrwydd Hyd Braich | |
| Profion yn ystod y flwyddyn - Prynu a Thaliadau | |
| Profion yn Ystod y Flwyddyn - Cyflogres ac AD | |
| Cwynion a Chanmoliaethau | |
| Canolfan Derbyn Larymau | |
| Rheoli Perfformiad – Datblygu Economaidd | |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | |
| Dŵr Gwyn Rhyngwladol | |
| Awdurdod yr Harbwr | |
| Iechyd a Diogelwch - Addysg a Dysgu Gydol Oes | |
| Menter Twyll Genedlaethol | |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | |
| Ysgol Gynradd Baden Powell | |
| Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Eglwys Norwyaidd 2021/22 | |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2021/22 | |

Mae'r sefyllfa yn erbyn y Cynllun Archwilio llawn wedi'i chynnwys yn eitem agenda 8.2 (atodiad 6), ac felly nid yw wedi'i chynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn er mwyn osgoi dyblygu. Fodd bynnag, dangosir statws yr adroddiad yn **Atodiad A**.

2.4 Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg (Ch4 (fel ar 28 Chwefror) 2022/23)

Yn ystod chwarter pedwar, fel ar 28.02.2023, mae un adroddiad drafft wedi cael ei gyhoeddi gyda barn 'anfoddhaol', ac mae un arall wedi cael barn 'annigonol ac angen gwelliant mawr'. Bydd ystyriaeth a thrafodaeth y rheolwyr yn dilyn cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau, ac ar yr adeg honno bydd y sgôr sicrwydd a'r argymhellion yn cael eu cadarnhau.

Mae archwiliad o 'Gwasanaeth Trafnidiaeth Canolog (GTC)' wedi rhoi barn 'anfoddhaol'. O ddechrau'r archwiliad, fe wnaeth y Rheolwr Gweithredol (RhG), a oedd wedi cael y dasg o oruchwylio'r GTC ochr yn ochr â'i ddyletswyddau swydd sylweddol, ymgysylltu'n gadarnhaol ag Archwilio Mewnol, a thrafod

materion yr oeddent o'r farn bod angen mynd i'r afael â nhw o'u sylwadau a'u hadolygiadau cychwynnol. Roedd hyn o gymorth i'r archwiliad, a nodwyd bod y RhG eisoes wedi cymryd camau cadarnhaol i wella'r systemau a'r llywodraethu sydd ar waith yn y GTC, gan gynnwys comisiynu adolygiadau allanol mewn sawl maes gan gynnwys Trwyddedau Gweithredol (trwyddedau "G"), Iechyd a Diogelwch (Coleridge Road) ac elfennau adrodd perfformiad o fewn Tranman (cronfa ddata'r Cyngor a ddefnyddir ar gyfer monitro cerbydau a gwaith amserlennu).

Ar lefel strategol, nid oedd Strategaeth Fflyd ar gyfer y Cyngor wedi'i chwblhau i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol, darparu fflyd gynaliadwy ar gyfer y Cyngor, a mynd i'r afael â risgiau'r presennol a'r dyfodol. Mae Cynllun Busnes GTC yn ofynnol i ddiffinio a gosod model busnes cynaliadwy gydag amcanion corfforaethol a masnachol a blaenoriaethau ar gyfer y GTC, gan gynnwys dulliau codi tâl a buddsoddi. Yn ychwanegol at hyn, nid oedd cofrestr risg gwasanaeth ar waith ac ystyrir ei bod yn angenrheidiol i uwchgyfeirio a rheoli risg. Ar lefel weithredol, nodwyd diffyg cydymffurfiaeth mewn rheolaethau a phrosesau contractau, er bod rheolaethau ychwanegol ar gyfer contractau llogi byrdymor wedi cael eu rhoi ar waith yn brydlon mewn ymateb yn ystod yr archwiliad. Nid oedd rhestr gyflawn a chyson o gerbydau a oedd yn eiddo i'r Cyngor nac yn cael eu prydlesu gan y Cyngor ar gyfer sicrhau rheolaeth, atgyweirio a chynnal a chadw. Nid oedd cytundebau lefel gwasanaeth cyfredol a chyflawn ar gael yn ystod yr archwiliad rhwng y GTC a gwasanaethau ac mae angen eu hadolygu a'u ffurfioli. Roedd angen datblygu a gwella trefniadau monitro a goruchwylio mewn perthynas â defnyddio ac awdurdodi cardiau prynu'r GTC, y system ar gyfer mynd â faniau adref, codi anfonebau'n brydlon, monitro diwedd oes cerbydau, prosesau tanwydd byncar ac alinio goramser ag anghenion busnes.

Pan fydd ymateb y rheolwyr wedi'i dderbyn a'r archwiliad wedi'i gwblhau, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad cryno gweithredol ar y canfyddiadau a'r camau gweithredu ar gyfer gwella yn y cyfarfod Pwyllgor dilynol.

Mae'r archwiliad o Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu (SDD DCT) y Gyfarwyddiaeth wedi'i gyhoeddi ar ffurf drafft, gyda barn 'annigonol ac angen gwelliant mawr'. Mae'r archwiliad wedi cydnabod bod y Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwella ei drefniadau ar gyfer cydymffurfio â safon SDD DCT yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys creu polisïau, canllawiau a gweithdrefnau manwl ar gyfer staff sy'n ymwneud â phrosesu taliadau. Yn benodol, mae'n amlwg trwy'r rheolaethau sydd ar waith a'r adborth a ddarparwyd o ymweliadau safle archwilio bod creu rôl Swyddog Cydymffurfiaeth SDD DCT pwrpasol wedi bod wrth wraidd y gwelliannau hyn a gefnogir gan Weithgor SDD DCT pwrpasol.

Cadarnhaodd profion yn ystod ymweliadau safle fod yr holl staff perthnasol, gan gynnwys eu rheolwyr llinell, wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol SDD DCT. Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd ymagwedd ragweithiol gynnar at gydymffurfio â SDD DCT f4, gyda chymorth cymariaethau anffurfiol a wnaed yn ystod yr archwiliad â sefydliadau eraill. Mae angen gweithredu mwyafrif y newidiadau gorfodol allweddol erbyn mis Mawrth 2025 ac mae Gweithgor a Swyddog Cydymffurfiaeth SDD DCT yn ymgysylltu â'u Hymgynghorwyr SDD DCT i gynnal gweithdy dadansoddiad o'r bylchau ym mis Mawrth 2023. Mae'r risg o ddiffyg cydymffurfiaeth wedi'i ddal a'i werthuso gyda chamau lliniaru wedi'u nodi.

Deilliodd y farn archwilio diffygiol ar gydymffurfiaeth DCT y gyfarwyddiaeth o brofion a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant, a oedd yn nodi bod y lleoliad wedi cadw copïau o dderbynebau deiliad cardiau a oedd yn cynnwys y Prif Rif Cyfrif (PRC) 16 digid llawn yn groes i Ofyniad 3 o SDD DCT ar gyfer diogelu data deiliaid cardiau. Er bod y canfyddiad unigol hwn wedi arwain at farn archwilio diffygiol, mae'r rheolwyr wedi cadarnhau bod y derbynebau a nodwyd yn Neuadd Dewi Sant gyda'r PRC heb ei guddio'n ddiogel wedi'u dinistrio, ac mae cyfathrebiadau wedi cynyddu i liniaru unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth pellach â threfniadau llywodraethu'r Cyngor ar gydymffurfio â'r DCT.

2.5 Canfyddiadau Gwerth am Arian (Ch4 (fel ar 28 Chwefror) 2022/23)

Ni chwblhawyd unrhyw archwiliadau ar y thema gwerth am arian yn ystod y cyfnod adrodd. Mae gan fwyafrif llethol yr archwiliadau a gynhaliwyd gan y Tîm Archwilio Mewnol amcanion sy'n cwmpasu sicrwydd gwerth am arian, sy'n cynnig lefel foddhaol gyffredinol o sicrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd.

## 3. Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol

3.1 Gwerth Ychwanegol

Cynhaliwyd cyfarfodydd Rheoli Perthnasau gyda Chyfarwyddwyr a'u cynrychiolwyr wrth ddatblygu'r Cynllun Archwilio yn chwarter pedwar 2021/22. Yna cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd bob chwarter yn 2022/23, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeall y blaenoriaethau a'r risgiau o fewn pob tîm rheoli, a'r newidiadau i systemau neu brosesau a gynlluniwyd neu sydd ar y gweill, er mwyn cyfarwyddo cyngor archwilio a llywio'r gwaith o gynllunio ymgysylltiadau archwilio.

Mae adborth gan gleientiaid archwilio wedi bod yn gadarnhaol yn y flwyddyn hyd yma, gyda chyfraddau boddhad yn 100% gan gleientiaid sydd wedi ymateb, gydag 86% yn nodi bod eu harchwiliad wedi 'ychwanegu gwerth'.

Yn yr allbynnau archwilio a gyhoeddwyd hyd yma (sef 28 Rhagfyr 2023), roedd 314 o argymhellion wedi eu gwneud, cytunwyd ar 153 o argymhellion, ac mae 161 yn cael eu hystyried gan gleientiaid archwilio drwy allbynnau archwilio drafft. Mae'r rhain wedi eu crynhoi isod:

Ffigur 5 - Argymhellion a godwyd ac a gytunwyd

| Sgôr | Argymhellion a wnaed | Argymhelliad a gytunwyd | Argymhellion sy'n cael eu hystyried |
|---|---|---|---|
| Coch | 4 | 0 | 4 |
| Coch / oren | 123 | 55 | 68 |
| Oren / gwyrdd | 177 | 92 | 85 |
| Gwyrdd | 10 | 6 | 4 |
| CYFANSWM | 314 | 153 | 161 |

3.2 Perfformiad

Fel yr amlinellir yn adran 2.1 ('Gweithgareddau Presennol'), blaenoriaethau ac ymagwedd y tîm archwilio yn ystod chwarter un oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a chyflawni mwy o ymrwymiadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Darparwyd y sefyllfa o ran perfformiad parthed chwarter tri i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2023, gyda sylwebaeth berthnasol, ac fe'i darperir isod i gyfeirio ati cyn ystadegau chwarter pedwar a gaiff eu coladu ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Ffocws craidd y tîm yn ystod chwarter pedwar yw cyflawni'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau archwilio a restrir yn ffigur 4 i'r cam adrodd drafft. Bydd hyn yn rhoi lefel gref o sylw i'r farn flynyddol gan y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, canolbwyntir ar gwblhau archwiliadau yn brydlon a chyflawni argymhellion archwilio o fewn yr amserlenni gofynnol. Mynychodd y Rheolwr Archwilio gyfarfod yr Uwch Dîm Rheoli ar 21 Chwefror 2023 i ddarparu dadansoddiad perthnasol, i drafod perfformiad, ac i bwysleisio pwysigrwydd sylw parhaus gan reolwyr yn y meysydd hyn.

Ffigur 6 - Perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer 2022/23 (hyd yma)

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2021/22 | Targed 2022/23 | Canlyniad Ch1 | Canlyniad Ch2 | Canlyniad Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd | 61% | 70% | 13% | 25% | 29% |
| Nifer gyfartalog y diwrnodau archwilio cynhyrchiol fesul CALl | 147 | 150 | 37 | 68 | 103 |
| Nifer gyfartalog yr archwiliadau wedi'u cwblhau fesul CALl | 7.4 | 9 | 1.43 | 3.13 | 4.82 |
| Canran yr allbynnau archwilio drafft a gyflawnwyd o fewn pedair wythnos | 92% | 90% | 80% | 84% | 87% |
| Canran yr argymhellion archwilio a roddwyd ar waith o fewn yr amserlen y cytunwyd arni | 68% | 80% | 56% | 71% | 65% |

3.3 Gweithredu'r Cynllun Archwilio

Yn ogystal â monitro a rheoli nifer yr archwiliadau a gynhelir, caiff archwiliadau eu dyrannu er mwyn sicrhau bod sicrwydd eang erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a bod hwnnw'n sail ar gyfer barn flynyddol y Rheolwr Archwilio. Mae Adrannau 2.1 – Gweithgareddau Presennol a 2.3 – Cynllun Archwilio yn nodi'r manylion perthnasol.

3.4 Argymhellion

Mae crynodeb o'r camau archwilio agored wedi'i gynnwys yn **Atodiad B**, i gefnogi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fonitro ac adolygu ymateb rheolwyr i'r argymhellion a godwyd.

Mae tracwyr argymhellion llawn ar yr argymhellion sydd ar agor, a'r rhai a gwblhawyd ers y cyfarfod pwyllgor diwethaf, ar gael er gwybodaeth a chyfeiriad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae hyn yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn y Cyfarfod Pwyllgor ar 24 Ionawr 2023 y bydd y tracwyr argymhellion llawn ar gael trwy safle SharePoint i Aelodau'r Pwyllgor wrth symud ymlaen, yn hytrach na'u cyhoeddi fel rhan o bapurau'r Pwyllgor.

Mae'r tabl isod yn dangos yr achosion lle mae dyddiadau gweithredu wedi'u diwygio fel arfer gan gleientiaid archwilio, ar gyfer archwiliadau nad ydynt yn cael eu cydnabod fel rhai y cyfeirir atynt yn llawn (ar 28.02.2023). Adroddir am y sefyllfa yn erbyn argymhellion, i fonitro cynnydd ac i dargedu trafodaethau ar reoli risg yn effeithiol, mewn cyfarfodydd rheoli perthnasoedd bob chwarter.

Ffigur 7 - Dyddiadau diwygiedig ar gyfer rhoi argymhellion ar waith a'r statws

| Cyfarwyddiaeth / Categori Archwilio | Nifer yr argymhellion gyda dyddiadau diwygiedig | Camau gweithredu bellach wedi'u rhoi ar waith | Camau gweithredu ar agor o hyd |
|---|---|---|---|
| Sylfaenol | 20 | 17 | 3 |
| Corfforaethol | 27 | 17 | 10 |
| Allanol a grantiau | 13 | 13 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau | 37 | 21 | 16 |
| Gwasanaethau Plant | 25 | 18 | 7 |
| Datblygu Economaidd | 39 | 24 | 15 |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes | 81 | 57 | 24 |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | 50 | 35 | 15 |
| Pobl a Chymunedau | 1 | 1 | 0 |
| Adnoddau | 61 | 46 | 15 |
| Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol | 11 | 8 | 3 |
| Rheoli Gwastraff | 51 | 48 | 3 |
| | 416 | 305 | 111 |
| Ysgolion | 201 | 153 | 48 |
| CYFANSWM | 617 | 458 | 159 |

**DS -** Dylid nodi bod y tabl uchod yn cynrychioli'r sefyllfa ar 28 Chwefror 2023, tra bo atodiadau'r traciwr argymhellion yn dangos y sefyllfa fanwl yn erbyn pob argymhelliad ar y dyddiad agosaf posibl i bob cyfarfod Pwyllgor.

## 4. Casgliad

### 4.1 Crynodeb

Yn ystod chwarter pedwar, fel ar 28 Chwefror 2023, mae blaenoriaethau ac ymagwedd y tîm archwilio wedi parhau i gyflawni cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a chyflawni ymgysylltiadau archwilio sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Mae'r swydd Prif Archwilydd newydd yr hysbyswyd y Pwyllgor amdani ym mis Tachwedd 2022 wedi'i llenwi'n llwyddiannus ar sail 0.6 cyfwerth ag amser llawn. Mae'r swydd hon yn golygu bod yna aelod ychwanegol yn y Tîm Rheoli Archwilio ac yn gwella craidd cadarn o uwch swyddogion o fewn y tîm. Bydd deiliad y swydd yn dechrau ym mis Mawrth.

Llenwyd y swydd Prif Archwilydd newydd yn fewnol, a oedd yn gadael swydd wag ar lefel Uwch Archwilydd. Mae swydd wag arall ar lefel Uwch Archwilydd, gan y bydd y deiliad swydd arall yn gadael y tîm ar ôl diwedd y flwyddyn am gyfle gyda'r Tîm Cynllunio a Pherfformio. Mae trefniadau'n cael eu gwneud i hysbysebu'r ddwy swydd Uwch Archwilydd cyn gynted â phosibl.

Mae tair swydd hyfforddai CIPFA wedi'u hysbysebu ac, yn amodol ar benodiadau llwyddiannus, bydd un hyfforddai CIPFA yn gweithio ar sail cylchdro o fewn archwilio mewnol o chwarter 3 2023/2024 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Archwilio.

Mae'r gwaith o gyflawni Cynllun Archwilio 2022/2023 wedi bod yn sylweddol is na'r targed yn ystod y flwyddyn hyd yma, fel ar 28 Chwefror 2023. Mae hyn wedi'i briodoli'n rhannol i lefel is o adnoddau staff fel yr amlinellir yn adran 2.2. 'Adnoddau', ac i ryw raddau oedi ynysig wrth dderbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn dod â'r gwaith maes archwilio i ben.

Ym mis Ionawr 2023 derbyniodd y Pwyllgor fanylion yr archwiliadau a oedd yn cael eu blaenoriaethu i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd yr archwiliadau wedi'u targedu at ddarparu lledaeniad digonol o sicrwydd, sy'n lliniaru unrhyw amhariad ar farn flynyddol y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer 2022/2023. Byddai cyflawni'r hyn a nodwyd fel archwiliadau blaenoriaeth 1 yn sicrhau bod pob maes sylfaenol o'r cynllun yn cael eu cyflawni, bod meysydd craidd o lywodraethu corfforaethol wedi'u hadolygu, a bod digon o sylw ar lefel cyfarwyddiaeth.

Ar 28 Chwefror 2023, roedd 20 o archwiliadau â blaenoriaeth yn parhau, ac ar gamau gwaith maes archwilio neu tu hwnt. Bwriedir cwblhau'r rhan fwyaf o'r archwiliadau hyn i'r cam adrodd drafft erbyn diwedd mis Mawrth 2023, gyda gweddill yr archwiliadau i'w cwblhau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol 2023/24.. Bydd hyn yn rhoi lefel gref o sylw i'r farn flynyddol gan y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, canolbwyntir ar gwblhau archwiliadau yn brydlon a chyflawni argymhellion archwilio o fewn yr amserlenni gofynnol. Mynychodd y Rheolwr Archwilio gyfarfod yr Uwch Dîm Rheoli ar 21 Chwefror 2023 i ddarparu dadansoddiad perthnasol, i drafod perfformiad, ac i bwysleisio pwysigrwydd sylw parhaus gan reolwyr yn y meysydd hyn.

## Statws yr Adroddiad (fel ar 28 Chwefror 2023)

| Barn Archwilio | Maes Archwilio | Argymhellion Risg Uchel | | Statws (Os nad yw wedi'i Gwblhau) |
|---|---|---|---|---|
| | | Arfaethedig | Cytunwyd | |
| | Sylfaenol / Uchel | | | |
| Effeithiol | Grantiau Covid Llywodraeth Cymru - Sicrwydd (2021/22) | | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Rheoli Asedau Ysgol - Thematig (Albany) | | | |
| | Pobl a Chymunedau - Comisiynu a Chaffael (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Prif Gyfrifyddu (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Prynu a Thaliadau - profion yn ystod y flwyddyn (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Illtud Sant - Rheoli Asedau Ysgolion (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Adnoddau – Incwm a Dyledwyr (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Budd-dal Tai / Lwfans Tai Lleol / Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor | | | |
| Effeithiol gyda lle i wella, | Adnoddau - Iechyd a Diogelwch (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Prosesau Chwythu'r Chwiban (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Cyflogres ac AD – Profi yn Ystod y Flwyddyn (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Rheoli Asedau (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Incwm a Dyledwyr | | | |
| | Bargen Ddinesig 2021/22 | | | |
| | Archwiliad o'r Crud i'r Bedd (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Cardiau Prynu (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Rheoli Perfformiad Corfforaethol (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | The Hollies - Rheoli Asedau Ysgolion (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Herbert Thompson – Rheoli Asedau Ysgolion (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Allensbank - Iechyd a Diogelwch Ysgolion (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Llywodraethu gwybodaeth (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Adnoddau – Sicrwydd Cyn Contract (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Llaneirwg - Iechyd a Diogelwch Ysgolion (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Severn - Iechyd a Diogelwch Ysgolion (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |

| Barn Archwilio | Maes Archwilio | Argymhellion Risg Uchel | | Statws (Os nad yw wedi'i Gwblhau) |
|---|---|---|---|---|
| | | Arfaethedig | Cytunwyd | |
| | Greenhill - Iechyd a Diogelwch Ysgolion (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Llanisien - Iechyd a Diogelwch Ysgolion (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Incwm a Dyledwyr (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Cynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Gwerth am arian mewn Mentrau Digidol (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Trefniadau Rheoli Risg | | | |
| | Taliadau Staff Asiantaeth | | | |
| | Storfeydd Brindley Road | | | |
| | Diogelu | | | |
| | Oedolion, Tai a Chymunedau - Sicrwydd Cyn Contract (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Caffael | | | |
| | Llywodraethu Seiberddiogelwch | | | |
| | Iechyd a diogelwch | | | |
| Annigonol ac angen gwelliant mawr | Sant Padrig - Rheoli Asedau Ysgolion (dygwyd ymlaen o 2021/22) | 1 | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Amrywiadau Contract | 1 | | |
| | Cydymffurfiaeth SDD DCT y Gyfarwyddiaeth | 1 | | |
| | Gwasanaethau Plant - Sicrwydd Cyn Contract (dygwyd ymlaen o 2021/22) | 1 | 1 | |
| | Milltiredd a Chynhaliaeth (dygwyd ymlaen o 2021/22) | 1 | 1 | |
| | Cyfrifiadura Cwmwl (dygwyd ymlaen o 2021/22) | 1 | 1 | |
| | CTA - Sicrwydd Cyn Contract (dygwyd ymlaen o 2021/22) | 1 | 1 | |
| | Canolig | | | |
| Effeithiol | Ysgol Bro Edern (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | Draft |
| | Gwasanaeth Ewch â Fi Adre | | | |
| | Cynlluniau CGI (gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf) | | | |
| Effeithiol gyda lle i wella | Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yng Nghaerdydd | | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Ysgolion â Balansau Dros Ben - Thematig | | | |
| | Arlwyo mewn ysgolion sydd wedi Optio Allan | | | |
| | Cartref Cŵn Caerdydd | | | |

| Barn Archwilio | Maes Archwilio | Argymhellion Risg Uchel | | Statws (Os nad yw wedi'i Gwblhau) |
|---|---|---|---|---|
| | | Arfaethedig | Cytunwyd | |
| | Dilyniant - Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd | | | |
| | Parhad Busnes a Rheoli Digwyddiadau (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Teleofal (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Cantonian | | | |
| | Maes Carafanau Caerdydd | | | |
| | Ysgol Farchogaeth Caerdydd | | | |
| | Llywodraethu Contractau Hamdden | | | |
| | Contract Trin Gwastraff Organig Caerdydd | | | |
| | Ysgol Gynradd Glyncoed | | | |
| Annigonol ac angen gwelliant mawr | Lleoliadau Plant (dygwyd ymlaen o 2021/22) | 1 | 1 | |
| | Cytundebau A106 (dygwyd ymlaen o 2021/22) | 1 | 1 | |
| Anfoddhaol | Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog | 2 | | Drafft |
| | Grantiau / Cyfrifon / Cyrff Allanol | | | |
| Dim barn sicrwydd wedi'i rhoi | Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Datganiad Cyfrifon - Adolygiadau / Ardystiad / Cymorth | | |
| | Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | | | |
| | Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | | | |
| | Grant Gwella Addysg 2021/22 | | | |
| | Aseiniadau eraill | | | |
| Dim barn sicrwydd wedi'i rhoi | Ymgynghoriaeth Gwasanaeth / Prosesau | cydymffurfiaeth, rheolaeth ac arweiniad gwrth-dwyll | | |
| | Taliadau a Phrosesau Prynu – Hunanasesiad Rheoli Risg (HRhR) | Adolygiad ac ymgysylltu gyda'r cleient ar eu HRhR | | |
| | Cyflogres ac AD - Hunanasesu Rheoli Risg (HRhR) | | | |

# Crynodeb o Argymhellion - (Argymhellion agored 'Coch' a 'Coch / Oren')

| | | | | 'argymhellion agored' yn ôl sgôr sicrwydd archwiliad | | | | | 'argymhelliad agored' yn ôl statws | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiaeth / Adran | Nifer yr Archwiliadau | Nifer yr Argymhellion Coch | Nifer yr Argymhellion Coch / Oren | Nifer yr Argymhellion Effeithiol | Nifer yr Argymhellion Effeithiol gyda Lle i Wella | Nifer yr Argymhellion Annigonol ac Angen Gwelliant Mawr | Nifer yr Argymhellion Anfoddhaol | Nifer yr Argymhellion Dd/B | Nifer yr Argymhellion â Dyddiad Gweithredu Diwygiedig | Nifer yr Argymhellion lle mae'r dyddiad gweithredu wedi pasio | Dyddiad targed presennol heb ei gyrraedd eto | |
| Datblygu Economaidd | 8 | 2 | 14 | | 13 | 3 | | | 12 | 1 | 15 | |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes - Ysgolion | 17 | 1 | 41 | | 39 | 3 | | | 35 | 24 | 18 | *1 - camau gweithredu hwyr lle mae'r dystiolaeth yn cael ei hadolygu gan Archwilio Mewnol.<br>7 - camau gweithredu hwyr y gofynnwyd am dystiolaeth arnynt, er mwyn cau camau gweithredu.<br>12 - camau gweithredu hwyr y gofynnwyd am ddiweddariad arnynt.<br>4 - camau gweithredu hwyr y gofynnwyd am ddyddiad gweithredu diwygiedig arnynt.* |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes | 9 | 4 | 13 | | 5 | 8 | | 4 | 16 | 3 | 14 | *3 - camau gweithredu hwyr lle gofynnwyd am dystiolaeth ar gyfer 2 gam gweithredu, ac 1 cam gweithredu lle mae angen diweddariad.<br>4 - Dd/B camau gweithredu yn ymwneud ag achosion lle samplwyd y Gyfarwyddiaeth fel rhan o adroddiad corfforaethol ehangach, ac ni ddarparwyd barn ar lefel cyfarwyddiaeth.* |
| Llywodraethu Corfforaethol (Adnoddau) | 5 | | 5 | | 4 | 1 | | | 1 | 1 | 4 | *1 - cam gweithredu hwyr y gofynnwyd am ddiweddariad arno.* |
| Allanol a Grantiau (Adnoddau) | | | | | | | | | | | | |
| Sylfaenol (Adnoddau) | 1 | | 1 | | 1 | | | | 1 | 0 | 1 | |
| Sicrwydd Arall (Adnoddau) | 1 | 1 | 2 | | | 3 | | | 2 | 3 | 0 | *3 - camau gweithredu hwyr y gofynnwyd am ddiweddariad arnynt.* |
| Adnoddau | 2 | 1 | 3 | | 1 | 3 | | | 3 | 1 | 3 | *1 - cam gweithredu hwyr y gofynnwyd am ddiweddariad arno.* |
| Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol | 1 | | 2 | | | | | 2 | 2 | 0 | 2 | *2 - Dd/B camau gweithredu yn ymwneud ag achosion lle samplwyd y Gyfarwyddiaeth fel rhan o adroddiad corfforaethol ehangach, ac ni ddarparwyd barn ar lefel cyfarwyddiaeth.* |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | 8 | 1 | 13 | | 7 | 5 | | 2 | 12 | 4 | 10 | *2 - Dd/B camau gweithredu yn ymwneud ag achos lle samplwyd y Gyfarwyddiaeth fel rhan o adroddiad corfforaethol ehangach, ac ni ddarparwyd barn ar lefel cyfarwyddiaeth.<br>4 - camau gweithredu hwyr y gofynnwyd am ddiweddariad ar eu cyfer* |
| Pobl a Chymunedau | 1 | | 1 | | 1 | | | | 0 | 0 | 1 | |
| Gwasanaethau Plant | 4 | 2 | 4 | | | 4 | | 2 | 6 | 0 | 6 | *2 - Dd/B camau gweithredu yn ymwneud ag achosion lle samplwyd y Gyfarwyddiaeth fel rhan o adroddiad corfforaethol ehangach, ac ni ddarparwyd barn ar lefel cyfarwyddiaeth.* |
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, Cymunedau a Thai | 5 | 1 | 7 | 1 | 1 | 6 | | | 7 | 0 | 8 | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Cyffredinol | 2 | 1 | 2 | | 1 | 2 | | | 3 | 0 | 3 | |
| CYFANSYMIAU | 64 | 14 | 108 | 1 | 73 | 38 | 0 | 10 | 100 | 37 | 85 | |